Cadw Gwenyn – Cynyddu Nifer y Nythfeydd

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

fera

The Food and Environment Research Agency

The Scottish Government

Cyflwyniad

Bydd angen i bob gwenynwr gynyddu nifer y nythfeydd sydd ganddo rywbryd. Mae llawer o wahanol ffyrdd o wneud hyn felly argymhellir eich bod yn cyfeirio at lyfr da sy'n ymdrin â'r pwnc. Yma cewch y technegau sylfaenol a fydd yn ddigon i ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o wenynwyr. Yr haid artiffisial yw'r dull a ddefnyddir fwyaf am y gellir ei ddefnyddio i reoli heidiau hefyd.

Mae creu cnewyllyn yn ffordd dda o gynyddu nifer y nythfeydd sydd gennych a'ch elw ond mae'n llawer haws gwneud hynny os gellir mynd â'r cnewyll i wenynfa arall y tu hwnt i bellter hedfan y wenynfa wreiddiol.

Wrth gynyddu nifer y nythfeydd mae'n hanfodol mai dim ond nythfeydd cryf, iach sy'n cael eu defnyddio a'ch bod yn dewis yr adeg gywir o'r tymor i wneud hynny fel y bydd y nythfa wreiddiol a'r nythfa newydd yn ffynnu.

Dwyn

Ni ellir gorbwysleisio'r risg hon yn enwedig pan gaiff nythfeydd cnewyllol eu ffurfio yn yr un wenynfa. Ymhlith y dulliau a ddefnyddir i atal gwenyn rhag dwyn mae mynedfeydd sydd ond yn caniatáu i un wenynen ar y tro fynd trwyddynt, defnyddio teclynnau bwydo ffrâm, bwydo gwenyn â siwgr sych yn lle surop, safleoedd ar wahân ar gyfer cnewyll, neu fynd â'r cnewyllyn y mae gwenyn eraill yn dwyn ohono i wenynfa allan.

Bydd angen bwydo stociau newydd hyd yn oed mewn llif am y byddant yn brin o wenyn chwilota ond ni ddylid eu bwydo â surop tan y drydedd noson i leihau'r posibilrwydd o ddwyn.

Creu haid artiffisial

I'r rhai sydd am gynyddu nifer y nythfeydd sydd ganddynt ac atal y gwenyn rhag heidio ar yr un pryd mae'r haid artiffisial yn ddull syml a ddefnyddir yn eang.

Mae'r dull hwn yn gofyn am flwch epil, llawr, bwrdd coron a tho ychwanegol. Os ceir bod stoc wedi meddiannu celloedd brenhines ond nad yw wedi heidio caiff y frenhines a'r crwybr y'i canfyddir arno eu symud i flwch epil newydd. Gellir paratoi'r blwch hwn ymlaen llaw ac mae'n cynnwys crwybrau wedi'u tynnu, neu fframiau sylfaen, neu gyfuniad o'r ddau; a gadewir lle yn y canol i dderbyn y crwybr sy'n cario'r frenhines. Dylid tynnu unrhyw gelloedd brenhines ar y crwybr sy'n dal y frenhines allan neu eu dinistrio.

Caiff y cwch gwenyn gwreiddiol ar ei estyllen nawr ei symud o'r neilltu ac yn ei le rhoddir estyllen lle y gosodir y blwch epil newydd sy'n cynnwys y frenhines. Ar ôl ychwanegu atalfa brenhines gosodir unrhyw 'supers' a oedd ar y nythfa wreiddiol, a'r gwenyn sydd ynddynt, uwch ei phen. Bydd y nythfa hon (haid artiffisial) nawr yn derbyn y gwenyn ehedog wrth iddynt ddychwelyd ar ôl bod yn chwilota. Bydd yn adeiladu ei nyth epil yn ystod yr haf ac, am fod ganddi lawer o wenyn chwilota a llai o epil i ofalu amdanynt, mae mewn sefyllfa i fanteisio ar y llifoedd neithdar.

Gellir lleoli'r nythfa wreiddiol, sydd bellach heb frenhines, mewn unrhyw fan cyfleus yn yr un wenynfa. Bydd y gwenyn chwilota yn trosglwyddo i'r haid artiffisial yn fwyaf effeithiol os gellir lleoli'r ddau gwch gwenyn â bwlch o bum llath (4.5 metr) neu fwy rhyngddynt.

Bydd angen rhoi ffrâm â chrwybr neu sylfaen ynddi yn y blwch epil yn lle'r crwybr sy'n cario'r frenhines ar hyn o bryd yn yr haid artiffisial. Mae'r nythfa wreiddiol hon, ar ôl colli ei chyflenwadau dros ben a'i gwenyn chwilota, mewn perygl o newynu.

Dylai fod o leiaf un crwybr â chyflenwad bwyd yn y stoc hon fel y gellir gohirio bwydo'r gwenyn am dri diwrnod. Bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd y gwenyn chwilota yn dychwelyd i ddwyn.

Os bydd brenhines ifanc sydd wedi paru ar gael, gellir ei chyflwyno ar unwaith mewn caets addas ar ôl dinistrio pob un o'r celloedd brenhines. Neu, gellir gadael y celloedd heb eu cyffwrdd, neu'n well byth, wedi'u dinistrio ar wahân i un gell

ddi-sêl, dda a ddewiswyd am fod ganddi gyflenwad da o jeli'r frenhines ac am ei bod mewn safle sy'n annhebygol o fynd yn oer. Neu gellir dinistrio pob un o'r celloedd a chyflwyno cell brenhines aeddfed wedi'i selio o frîd gwell.

Dylid creu heidiau artiffisial yn gynnar yn ystod y tymor er mwyn iddynt allu ffurfio nythfeydd llawn dwf erbyn y gaeaf.

Creu cnewyllyn

Mae angen cnewyllyn cryf er mwyn magu brenhines o gell brenhines ond gellir defnyddio cnewyllyn bach pan fo brenhines sydd wedi paru ar gael. Mae'n bosibl na fydd cnewyllyn bach a gymerwyd o nythfa sy'n magu celloedd brenhines yn atal y nythfa rhag heidio, ac eto mae'n bosibl y bydd cnewyllyn sy'n ddigon mawr i'w hatal rhag heidio yn dinistrio'r nythfa o ran cynhyrchu mêl. Mae'n rhaid sicrhau bod y cnewyllyn yn ddigon mawr er mwyn iddo allu dechrau'r gaeaf fel nythfa hyfyw.

Yn gyntaf dylech ddod o hyd i'r frenhines a'i rhoi, ar y crwybr fel y'i cafwyd, mewn blwch sbâr a gorchuddio'r blwch hwn nes y bydd y broses o greu'r cnewyllyn wedi gorffen.

Nawr cymerwch ddau grwybr ag epil sy'n datblygu y mae un neu ragor o gelloedd brenhines datblygedig arnynt gan roi'r crwybrau hyn mewn cwch gwenyn cnewyllol gyda'u gwenyn ymlynol. Bydd gan y crwybrau mwyaf addas fwa mawr o fêl a phaill uwchlaw'r epil hefyd. Ysgwydwch y gwenyn o bedwar crwybr arall, o leiaf, i mewn i'r cnewyllyn. Cymerwch ddau grwybr bwyd o'r tu allan i'r nyth epil, gosodwch hwy yn y cnewyllyn o bobtu i'r ddau grwybr â'r epil sy'n datblygu gan sicrhau bod digon o le i ehangu drwy ddarparu crwybr wedi'i dynnu neu sylfaen. Gosodwch fwrdd y goron a'r to ar y cwch gwenyn a gosodwch y cnewyllyn ar ei safle newydd gan gau'r fynedfa yn llac â glaswellt gwyrdd i atal gwenyn rhag hedfan yn ôl i'r nythfa wreiddiol ar unwaith.

Os yw'r safle newydd wrth ochr y nythfa wreiddiol gosodwch fynedfa'r cnewyllyn ar ongl sgwâr i fynedfa'r nythfa wreiddiol. Peidiwch â bwydo'r cnewyllyn tan y drydedd noson ar ôl iddo gael ei greu a gofalwch rhag annog gwenyn i ddwyn drwy ollwng unrhyw surop.

Wedyn dylech ddychwelyd y frenhines, ar ei chrwybr, i'r nythfa wreiddiol ac adeiladu'r blwch epil gan ddefnyddio crwybrau wedi'u tynnu neu fframiau sylfaen.

Unwaith y bydd y frenhines ifanc wedi dechrau dodwy dylid atgyfnerthu'r cnewyllyn drwy ychwanegu crwybr ag epil sy'n datblygu heb wenyn a gymerwyd o nythfa gryf. Bydd hyn yn rhoi llu o wenyn gofal a fydd yn galluogi'r cnewyllyn i ehangu'n gyflym. Os bydd rhagor o grwybrau ag epil sy'n datblygu ar gael gellir ychwanegu crwybr tebyg arall bob wythnos nes y bydd y cnewyllyn yn llenwi wyth crwybr.

Os bydd brenhines sydd wedi paru ac sy'n dodwy ar gael gellir ei chyflwyno i'r cnewyllyn, mewn caets, cyn gynted ag y bydd wedi'i greu ar ôl dinistrio'r holl gelloedd brenhines.

Creu tair nythfa o ddwy

Mae'r dull hwn yn gofyn am flwch epil, llawr, bwrdd coron a tho ychwanegol. Ar ddiwrnod braf pan geir llif da; cymerwch rhwng tair a phum ffrâm ag epil o nythfa gryf a, chan ysgwyd y gwenyn oddi arnynt, rhowch hwy yn y blwch epil sbâr ynghyd â chrwybr wedi'i dynnu neu fframiau sylfaen.

Ychwanegwch y blwch epil o'r nythfa gryf wreiddiol â chrwybrau wedi'u tynnu neu fframiau sylfaen.

Symudir y nythfa a fydd yn cyflenwi'r gwenyn i safle arall yn y wenynfa, a rhoddir y blwch epil sbâr, sydd bellach yn gwch gwenyn cyflawn, yn ei lle. Gan mai dim ond y gwenyn ehedog o'r ail nythfa hon a fydd yn gofalu am y crwybrau epil, mae'n

rhaid iddi fod yn ddiwrnod braf pan fydd llawer o wenyn ehedog ar gael.

Dylid rhoi galwyn (4-5 litr) o surop siwgr i'r stoc newydd yr un noson. Gellir cyflwyno brenhines mewn caets ar unwaith i'r nythfa newydd; neu gellir darparu cell brenhines addas y diwrnod canlynol.

Breninesau

Gellir cael y rhain gan wenynwyr lleol, o'r diwydiant cyflenwi gwenyn, neu gallant gael eu magu gan y gwenynwr, ac os felly dylai fod yn bosibl datblygu system ar gyfer gwella'r stoc yn hytrach na magu brenhines ar hap o unrhyw gelloedd brenhines sy'n dod i law. Derbynnir breninesau ifanc, breninesau sydd wedi paru neu freninesau gwyryf yn eiddgar gan gnewyllyn yn syth ar ôl iddo gael ei greu, a gallant gael eu derbyn yn ddiweddarach os caiff pob un o'r celloedd brenhines sy'n bresennol bryd hynny eu dinistrio cyn i unrhyw frenhines wyryf ymddangos.

Mae breninesau gwyryf ar eu mwyaf derbyniol wrth iddynt ddod allan o'u celloedd. Gelwir brenhines wyryf sy'n ymddangos, a symudir o nythfa cyn iddi ddod i gysylltiad â'r gwenyn hynny ac a gedwir ar ôl hynny ar wahân i wenyn eraill, yn frenhines wyryf a dynnwyd. Derbynnir breninesau gwyryf a dynnwyd yn eiddgar gan gnewyll heb frenhines.

Celloedd brenhines

Dylid osgoi celloedd brenhines wedi'u hadeiladu mewn cnewyllyn gwan ar bob cyfrif. Dewiswch gelloedd o stoc gryf o dras dda, lle mae'r breninesau ar fin ymddangos. Yn achos cnewyll sy'n mynd i aros yn y wenynfa gellir defnyddio naill ai celloedd brenhines aeddfed neu ddi-sêl sy'n cynnwys larfâu datblygedig.

Os bwriedir cyflwyno cell brenhines wedi'i selio gellir ei gwasgu'n araf deg i mewn i gafn a wnaed â'r bawd ym mhen y rhan o grwybr canol lle y ceir yr epil. Os bwriedir defnyddio cell brenhines ddi-sêl dylid gosod y crwybr cyfan sy'n ei dal yn y cnewyllyn heb ei ysgwyd. Yn y naill achos a'r llall gofalwch beidio â difrodi'r gell wrth osod y crwybr hwn yn y cnewyllyn na'r un wrth ei hymyl.

Cyflwyno breninesau i gnewyll

Yr adeg orau i gyflwyno breninesau yw yn ystod llif neithdar helaeth. Yr adeg waethaf yw pan fydd neithdar yn brin a bod gwenyn yn dwyn neu pan fyddwch eisoes wedi methu â chyflwyno brenhines a bod y gwenyn heb epil.

Mae'n fwy diogel cyflwyno breninesau yng nghanol y tymor nag ar ddechrau neu ddiwedd y tymor ac mae'n fwy tebygol o lwyddo os bydd y gwenyn o'r un hil. Mae'n haws cyflwyno breninesau o'r un wenynfa na breninesau sydd wedi dod drwy'r post.

Y ffordd orau o'u cyflwyno yw defnyddio caets bum modfedd wedi'i gwneud o rwyll wifrog (3 mm) sy'n galluogi'r gwenyn gweithgar i ymgynefino â'r frenhines newydd cyn iddi gael ei rhyddhau.

Breninesau sy'n paru o gnewyll

Dylai'r gwenynwr geisio rhoi tirnodau i gnewyll sy'n paru a fydd yn helpu breninesau sy'n dychwelyd i wahaniaethu rhwng eu cwch gwenyn hwy a chychod gwenyn eraill. Bydd bricsen, teilsen, neu ddarn o bren yn agos at flaen y cwch gwenyn yn helpu. Gall paentio'r mynedfeydd i'r cychod yn wahanol liwiau helpu. Ni ddylid byth gosod y cnewyll mewn rhesi unffurf taclus â'u mynedfeydd yn wynebu'r un ffordd.

Yr Haid

Mae casglu heidiau yn ddull cyffredin o gynyddu nifer y nythfeydd. Os cyflwynir crwybr ag epil bydd yn annog yr haid

i aros. Ni ddylid gadael unrhyw leoedd gwag ar y fframiau yn y cwch gwenyn am ei bod yn bosibl y bydd yn well gan yr haid adeiladu ei chrwybr ei hun yn y lle gwag.

Mae o fudd sylweddol i bob haid gael eu bwydo'n helaeth pan gânt eu rhoi mewn cwch gwenyn ac mae'n werth rhoi galwyn (4-5 litr) o surop siwgr iddynt bryd hynny. Ni ddylid bwydo heidiau am dri neu bedwar diwrnod am ei bod yn bosibl bod y mêl sy'n cael ei gludo gan yr haid wedi'i heintio a dylid ei defnyddio i wneud crwybrau. Mae'n werth achub ar y cyfle i leihau lefelau Varroa, cyn bod unrhyw epil, gan ddefnyddio 'varroacide' neu fesur rheoli Varroa addas.

O stoc sy'n paratoi i heidio

Gellir peri i stoc sy'n paratoi i heidio heidio'n artiffisial fel y disgrifiwyd uchod a gellir rhannu'r crwybrau epil â gwenyn ymlynol, unrhyw bryd cyn i'r frenhines ifanc gyntaf ymddangos, yn ddau neu ragor o gnewyll ar yr amod y bodlonir y gofynion o ran bwyd a gorchuddio'r epil. Yn yr achos hwn dim ond un gell brenhines aeddfed y dylid ei gadael ym mhob cnewyllyn.

Drwy rannu blwch epil dwbl

Pan fo'r epil, y gwenyn a'r cyflenwadau bwyd wedi'u rhannu'n eithaf cyfartal rhwng y ddau flwch gellir cynyddu nifer y nythfeydd drwy eu gwahanu. Mae'n bosibl cwblhau'r weithdrefn gyfan heb ddod o hyd i'r frenhines – gosodir y ddau flwch ar standiau ar wahân â bwlch o fwy na llathen rhyngddynt. Wythnos yn ddiweddarach bydd celloedd brenhines argyfwng yn y blwch heb y frenhines.

Gellir dinistrio'r celloedd hyn, a chyflwyno brenhines neu gell brenhines addas, neu gellir rhannu'r blwch cyfan yn gnewyll.

75% wedi'i ailgylchu
recycled

ISBN 978 0 7504 5063 8
© Hawlfraint y Goron Mawrth 2009
CMK-22-01-153
D6930809

Taflen Gynghori 574
Diwygiwyd ac ailargraffwyd 2009.